**CYNGOR DINAS CAERDYDD**

COFNODION

## CYFARFOD Y CABINET: 12 HYDREF 2017

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)<br>Y Cynghorydd Peter Bradbury<br>Y Cynghorydd Russell Goodway<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Michael Michael<br>Y Cynghorydd Lynda Thorne<br>Y Cynghorydd Caro Wild |
| Gwylwyr: | Y Cynghorydd Joe Boyle<br>Y Cynghorydd Adrian Robson |
| Hefyd: | Y Cynghorydd Dilwar Ali (Rhif Cofnod 35) |
| Swyddogion: | Paul Orders, y Prif Weithredwr<br>Ian Allwood, Dirprwy Swyddog Adran 151<br>Davina Fiore, Swyddog Monitro<br>Joanne Watkins, Swyddfa'r Cabinet |
| Ymddiheuriadau: | Y Cynghorydd Susan Elsmore<br>Y Cynghorydd Graham Hinchey<br>Y Cynghorydd Christopher Weaver |

### COFNODION Y CYFARFOD CABINET A GYNHALIWYD AR 21 MEDI 2017

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2017.

### CYNNIG I DDATBLYGU UNED HYFFORDDIANT GOFAL CYMDEITHASOL RHANBARTHOL AR GYFER CAERDYDD A BRO MORGANNWG

Ystyriwyd adroddiad sy'n amlinellu cynigion i sefydlu uned hyfforddiant gofal cymdeithasol ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg. Cynigiwyd bod Cyngor Caerdydd yn gweithredu fel yr awdurdod lletya a disgwyliwyd y sefydlir yr uned ar sail niwtral o ran cost.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo’r model busnes, yr agwedd a'r swyddogaethau a nodir yn yr Achos Busnes ar gyfer yr Uned Hyfforddiant Gweithlu Gofal Cymdeithasol rhanbarthol yn **Atodlen 1**, gan gynnwys

   (i) sefydlu Uned Hyfforddiant Gweithlu Gofal Cymdeithasol rhanbarthol del y nodir yn yr adroddiad hwn; a

   (ii) chreu a recriwtio swydd Rheolwr Rhanbarthol ar gyfer yr Uned Hyfforddiant Gweithlu Rhanbarthol.

2. dirprwyo awdurdod i’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymgynghoriad ag Aelodau Cabinet dros Blant a Theuluoedd ac Iechyd, Gofal Cymdeithas a Llesiant, a Chyllid, Moderneiddio a Pherfformiad a Swyddogion Adran 151 a Monitro i ymdrin â phob agwedd ar Lywodraethu ac unrhyw drefniadau/dogfennau cysylltiedig y gallai fod eu hangen mewn perthynas â'r cynigion hyn, gan gynnwys (heb gyfyngiad) cymeradwyo'r cytundeb partneriaeth drafft ac y gall Cyngor Caerdydd a Cyngor Bro Morgannwg wneud yr un cytundeb.

**YMATEB Y CABINET I ADRODDIAD PLANT A PHOBL IFANC AR ANFFURFIO ORGANNAU CENHEDLU BENYWOD**

**32 YMATEB Y CABINET I ADRODDIAD Y PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC AR ANFFURFIO ORGANAU CENHEDLU BENYWOD**

Ystyriodd y Cabinet ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod. Cynigiwyd bod y dau argymhelliad wedi’u hanelu at y Cabinet yn cael eu derbyn yn rhannol a bod cymorth yn cael ei roi i’r argymhellion wedi’u hanelu at Gwasanaeth Erlyn Y Goron a BAWSO.

**PENDERFYNWYD:** cytuno ar yr ymateb i’r argymhellion fel y nodir yn Atodlen A.

**DATBLYGU'R YSTÂD ADDYSG YNG NGHAERDYDD**

Derbyniwyd adroddiad sy’n amlinellu’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu Caerdydd wrth ddatblygu’r ystâd addysg. Nododd yr adroddiad anghenion digonedd poblogaeth yr ysgol, cyflwr ac addasrwydd yr ystâd ysgol a'r twf a ragwelir yn narpariaeth addysg o ganlyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith y byddai’r materion digonedd, addasrwydd a chyflwr yn ffurfiol sail ceisiadau am gyllid dan ‘Fand B’ CLLLC Llywodraeth Cymru a rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Awdurdodau Lleol.

**PENDERFYNWYD:** nodi'r materion a amlinellir yn yr adroddiad ac y byddai adroddiadau pellach ar gyfer penderfyniad canlyniadol yn y meysydd canlynol:

- Cynlluniau arfaethedig ar gyfer Caerdydd dan gam Band B rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif yng ngoleuni dyraniadau cyllideb gan Lywodraeth Cymru.
- Cynigion ar gyfer addasu a gwella darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghaerdydd.

## YMATEB Y CABINET I ADRODDIAD Y PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC AR DYMHORAU YSGOL

## YMATEB Y CABINET I ADRODDIAD Y PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC AR DYMHORAU YSGOL

Ystyriodd y Cabinet ei ymateb i'r argymhellion i adroddiad y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar Dymhorau Ysgol. Ni dderbyniwyd yr argymhelliad cyntaf gan y pwyllgor craffu gan y ystyriwyd datganiad Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru oedd yn ceisio harmoneiddio tymhorau'r ysgol ledled Cymru.

**PENDERFYNWYD:** cytuno ar yr ymateb i'r argymhellion fel y nodir yn Atodlen E yr adroddiad.

## DIWYGIO ETHOLIADOL YN Y LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU - YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Dilwar Ali, yr Aelod Cabinet Cynorthwyol dros Ymgysylltu Cymunedol ymateb y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Etholiadol yn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Croesawyd llawer o'r newidiadau arfaethedig, yn enwedig y rhai'n ymwneud â mesurau sydd â'r bwriad o gynyddu nifer y bobl sy'n pleidleisio a hybu cofrestru gan bleidleiswyr.

**PENDERFYNWYD:**

1. cymeradwyo'r cyflwyniad mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Etholiadol yn Llywodraeth Leol yng Nghymru (Atodlen B i'r adroddiad), yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau priodol; a

2. dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw ddiwygiadau i gyflwyniad drafft y Cyngor.

## ADRODDIAD GWELLA STATUDOL CYNGOR CAERDYDD

Rhodd yr adroddiad fanylion am gynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17 yn erbyn yr amcanion gwella fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol. Adroddwyd bod y Cyngor wedi hunan-asesu ac wedi nodi ei fod wedi gwneud cynnydd da o ran y tri amcan gwella ac wedi gwneud cynnydd boddhaol o ran y naw amcan oedd yn weddill.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo Adroddiad Gwella Statudol Blynyddol y Cyngor i'w gyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref 2017.

**Y POLISI IECHYD MEDDWL A CHANLLAW RHEOLWYR IECHYD MEDDWL**

Ystyriodd y Cabinet gymeradwyo'r Polisi Iechyd Meddwl a Chanllaw Rheolwyr ar gyfer cyflogeion y Cyngor. Roedd gan y polisi chwe nod clir, gan gynnwys creu a chynnal amgylchedd a diwylliant gweithle sy'n cydnabod ac yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant ac yn atal gwahaniaethu. Ar ôl ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu Polisi, Adolygu a Pherfformiad, gwnaethpwyd nifer o newidiadau cadarnhaol, gan gynnwys diwygiadau i nodau'r polisi i gynnwys rheoli straen yn y gweithle a sicrhau cysylltiadau clir â Pholisi Rheoli Straen y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

1. cymeradwyo mabwysiadu Polisi Iechyd Meddwl a Chanllaw Rheolwyr (Atodiadau A a B i'r adroddiad)

2. y caiff ei gyhoeddi i bob cyflogai mewn fformat priodol ar gyfryngau perthnasol.

3. y cyflwynir prif egwyddorion y polisi i Aelodau a bod Swyddogion yn dilyn i fyny gyda'r CLLLC o ran datblygu aelodau.

**CAFFAEL CYNLLUN TAI NEWYDD YN ADEILADAU'R COLEG, COURTENAY ROAD, SBLOT AR GYFER TAI CYNGOR**

***Ni chyhoeddir Atodiadau'r adroddiad hwn gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

Derbyniwyd y Cabinet adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i'r Cyngor wneud cytundeb gyda Chymdeithas Tai Cadwyn ar gyfer caffael fflatiau newydd i'w hadeiladu ar Courtenay Road, Sblot. Byddai'r cynllun yn rhan o'r nod i adeiladu 1000 o gartref Cyngor newydd ymhen 5 mlynedd.

**PENDERFYNWYD:** dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid i wneud cytundeb (yn dilyn cymeradwyaeth diwydrwydd dyladwy a dichonoldeb) gyda Chymdeithas Tai Cadwyn, ar gyfer caffael, ar swm contract a gytunwyd, 30 fflat newydd i gael eu datblygu gan Cadwyn yn Courtenay Road Sblot**.**